Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Tuag at Gymru Ddi-fwg: Cynllun Cyflawni 2022-24

Cyfnod Adroddiad Blynyddol
Gorffennaf 2022 – Gorffennaf 2023

llyw.cymru

# Cefndir

Ar 22 Gorffennaf 2022, cyhoeddwyd Cymru Ddi-fwg gan Lywodraeth Cymru, sef strategaeth ar gyfer rheoli tybaco. Mae'r strategaeth yn nodi'r uchelgais i Gymru fod yn ddi-fwg erbyn 2030 sy'n golygu lleihau cyfraddau cyffredinrwydd smygu ymhlith oedolion 16 oed a hŷn i 5% neu lai dros yr wyth mlynedd nesaf. Er mwyn cefnogi'r gwaith cyflawni, mae'r strategaeth yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfres o gynlluniau cyflawni dwy flynedd sy'n nodi'r camau a fydd yn cael eu cymryd wrth i ni weithio tuag at Gymru ddi-fwg. Mae'r strategaeth yn nodi hefyd y bydd Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn gwerthuso camau'r cynllun cyflawni yn barhaus er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud tuag at Gymru ddi-fwg ac y bydd adroddiadau cynnydd blynyddol yn cael eu cyhoeddi.

Tuag at Gymru Ddi-fwg yw'r cyntaf o'r cynlluniau cyflawni ac mae'n cwmpasu'r cyfnod Gorffennaf 2022 – Mawrth 2024. Bydd y cynllun cyflawni yn canolbwyntio ar y camau a fydd yn helpu i ddadnormaleiddio smygu ymhellach a sicrhau mai bod yn ddi-fwg yw'r 'norm' yng Nghymru, a bydd hefyd yn hyrwyddo arferion gorau ac yn integreiddio'r arfer o reoli tybaco ar draws y system gyfan. Mae'r camau gweithredu yn y cynllun cyflawni wedi'u grwpio'n bum maes gweithredu blaenoriaeth:

1. Amgylcheddau di-fwg
2. Gwelliant parhaus a chefnogi arloesi
3. Grwpiau blaenoriaeth
4. Mynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon a'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoli tybaco
5. Gweithio ar draws y DU

Cyfrifoldeb y Bwrdd Strategol ar gyfer Rheoli Tybaco ("y Bwrdd") yw cyflawni'r strategaeth a'r cynlluniau cyflawni ac mae'r Bwrdd yn cael ei gefnogi gan Grŵp Gweithredu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Rheoli Tybaco ("y Grŵp Gweithredu") sy'n cynghori ar gyflawni'r camau gweithredu yn y cynlluniau cyflawni.

## Gweithgarwch yn ystod y flwyddyn Gorffennaf 2022 – Gorffennaf 2023

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn nodi manylion y gweithgarwch sydd wedi digwydd i ddatblygu'r camau gweithredu yn y pum Maes Gweithredu Blaenoriaeth yn ystod y cyfnod Gorffennaf 2022 i Orffennaf 2023.

## Smygu yng Nghymru

- Mae data ynghylch cyffredinrwydd smygu yn cael eu darparu gan Arolwg Cenedlaethol Cymru. Yn y flwyddyn 2022-23, dangosodd yr arolwg fod 13% o oedolion yn smygu.
- Cesglir data smygu ymysg mamau drwy Ystadegau Mamolaeth a Genedigaeth. Yn 2022, mewn asesiadau cychwynnol cofnodwyd bod cyffredinrwydd smygu yn ystod beichiogrwydd yn 14.1%.
- Mae data ar gyfer rhoi'r gorau i smygu yn cael eu casglu gan Lywodraeth Cymru a'u cofnodi drwy StatsCymru. Yn 2022/23, yn ôl amcangyfrif, fe wnaeth 4.2% o boblogaeth Cymru sy'n smygu ymgais i roi'r gorau iddi drwy wasanaethau GIG Cymru ar gyfer rhoi'r gorau i smygu.

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG48437, ISBN digidol 978-1-83577-471-7
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg


# Trosolwg o gynnydd

Gwnaed cynnydd sylweddol o ran cefnogi smygwyr i roi'r gorau iddi, ac yn sgil gweithredu'r fframwaith integredig i Gymru ar gyfer rhoi'r gorau i smygu. Rydym wedi gweithio hefyd i ddatblygu ein systemau presennol ar gyfer rheoli tybaco drwy archwilio sut i ymgorffori ymyriadau arloesol, seiliedig ar dystiolaeth, fel y gallwn wneud gwelliannau, cefnogi mwy o smygwyr ac, yn fwy eang, cefnogi ein huchelgais i weld Cymru yn dod yn ddi-fwg erbyn 2030.

Blaenoriaethau allweddol eleni fu rhoi'r cynllun Helpa fi i Stopio yn yr Ysbyty ar waith ac edrych ar sut gallwn gefnogi mwy o bobl i roi'r gorau iddi drwy ein rhaglenni rhoi'r gorau i smygu ar gyfer mamau. Mae'r rhaglenni hyn yn canolbwyntio ar wneud y mwyaf o gyfleoedd i gleifion ryngweithio â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn lleoliad gofal eilaidd er mwyn hyrwyddo ymgais i roi'r gorau iddi a chynyddu'r siawns y bydd yr ymgais honno'n llwyddiannus. Yn 2021/22, nodwyd y ddwy raglen hyn yn flaenoriaethau ar gyfer byrddau iechyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith o'u rhoi ar waith drwy'r gronfa Atal a Blynyddoedd Cynnar gwerth £7.2 miliwn.

Mae canolbwyntio ar ein gofynion data presennol ac yn y dyfodol hefyd wedi bod yn faes rydym wedi canolbwyntio arno, gan gynnwys modelu amcanestyniadau o gyffredinrwydd smygu hyd at 2030 a datblygu'r defnydd o ffynonellau data amrywiol er mwyn deall nodweddion smygwyr yng Nghymru a sut gall hyn lywio ein camau gweithredu yn y dyfodol.

Mae manylion llawn am sut rydym yn bwrw iddi gyda phob cam gweithredu yn y pum Maes Gweithredu Blaenoriaeth ar gael yn Atodiad 1.



# Atodiad 1

## Maes gweithredu blaenoriaeth 1 – Amgylcheddau di-fwg

Gwnaed cynnydd sylweddol i gefnogi dadnormaleiddio smygu a lleihau cysylltiad â mwg ail-law yng Nghymru. Yn 2007 daeth yn anghyfreithlon i smygu mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd caeedig yng Nghymru ac, yn 2015, gwaharddwyd smygu mewn ceir sy'n cludo plant. Ar 1 Mawrth 2021 daeth tiroedd ysbytai, tiroedd ysgolion, mannau awyr agored mewn lleoliadau gofal plant a meysydd chwarae cyhoeddus yn ddi-fwg. Ym mlwyddyn gyntaf cynllun cyflawni 2022-24, mae ystafelloedd smygu mewn unedau iechyd meddwl wedi cael eu diddymu'n raddol ac mae smygu mewn ystafelloedd gwely mewn gwestai yn ogystal â mewn llety gwyliau hunangynhwysol wedi'i wahardd (daeth y gofynion i rym ar 1 Medi 2022).

Er mwyn cefnogi'r holl gamau gweithredu yn y Maes Gweithredu Blaenoriaeth hwn, sefydlwyd gweithgor ym mis Rhagfyr 2022, wedi'i gadeirio gan Brif Weithredwr ASH Cymru, i wneud y canlynol:

- Cynnal adolygiad sylfaenol o bolisïau ac arferion presennol pob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth briodol.
- Yn unol â chanfyddiadau'r adolygiad sylfaenol, archwilio canllawiau blaenorol a gyhoeddwyd i Fyrddau Iechyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) cyn i'r ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno, a gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau fel y bo'n briodol.
- Gwneud argymhellion i'r Grŵp Gweithredu i gryfhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau.
- Monitro a chefnogi'r gwaith o weithredu'r holl fannau di-fwg presennol eraill, yn cynnwys y cyfyngiad a gyflwynwyd yn ddiweddar ar feysydd chwarae cyhoeddus, tiroedd ysgol a mannau awyr agored mewn lleoliadau gofal plant, llety gwyliau a llety dros dro, ac unedau iechyd meddwl.
- Cyflwyno adroddiadau ysgrifenedig i'r Grŵp Gweithredu bob chwarter, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo ar lafar fel rhan o archwiliad dwfn o leiaf bob blwyddyn.



| Camau Gweithredu | Cynnydd yn ystod 2022/23 |
|---|---|
| **1.1 Monitro a chefnogi'r gwaith o weithredu'r holl fannau di-fwg presennol, yn cynnwys y cyfyngiad a gyflwynwyd yn ddiweddar ar diroedd ysbytai, meysydd chwarae cyhoeddus, tiroedd ysgol a mannau awyr agored mewn lleoliadau gofal plant, yn ogystal â llety gwyliau a llety dros dro, ac unedau iechyd meddwl.** | Ers i'r gofynion di-fwg ddod i rym ar 1 Mawrth 2021, bu rhai problemau o ran cydymffurfio ar diroedd ysbytai. Er mwyn cefnogi Byrddau Iechyd gyda'u dyletswyddau fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth, mae'r camau canlynol wedi'u cymryd:<br>• Aeth Iechyd Cyhoeddus Cymru ati i greu a chynnal ymgyrch i nodi bod blwyddyn wedi mynd heibio ers cyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd, gan gynnwys creu asedau i Fyrddau Iechyd eu defnyddio yn eu gweithgareddau lleol.<br>• Mae ICC wedi gwneud gwaith i ddatblygu animeiddiad newydd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gofynion di-fwg ar diroedd ysbytai. Darparwyd yr animeiddiad i Fyrddau Iechyd i'w arddangos ar y sgrin ar draws safleoedd ysbytai, a bydd yn rhan o hyfforddiant staff y rhaglen Helpa Fi i Stopio yn yr Ysbyty.<br>Gan gydweithio â swyddogion diogelu'r cyhoedd mewn awdurdodau lleol, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i edrych ar allu gorfodi ar diroedd ysbytai ac mewn mannau di-fwg eraill.<br>Mae ICC wedi ymgynghori ar greu deunydd addysg a hyfforddiant cefnogol ar gyfer staff ysbytai yn seiliedig ar ddeunyddiau a grëwyd ar gyfer Ysbyty Addysgu Sheffield.<br>Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi dechrau casglu data gan awdurdodau lleol ar gydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth mewn ardaloedd y mae'r awdurdodau lleol yn gyfrifol amdanynt (tiroedd ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus).<br>Meysydd Chwarae – mae cynghorau wedi derbyn cymorth a chyngor drwy gyflwyniadau a thrafodaethau gydag ASH Cymru ar gyfer rhoi cyfyngiadau ar waith yn eu hardaloedd.<br>Mewn perthynas â thraethau di-fwg:<br>• Mynychodd a chyflwynodd ASH Cymru Gyfarfod Rheolwyr Traethau Cymru i hyrwyddo'r ymgyrch Traethau Di-fwg ac i feithrin perthynas gydag awdurdodau a sefydliadau perthnasol – yn dilyn hyn, gyda chefnogaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, mae Ynys Môn wedi ymrwymo i lansio Traeth Di-fwg yn 2024, gyda gwaith arolwg yn ystod Haf 2023 a chynllunio camau gweithredu yn ystod Hydref 2023.<br>• Mae sefydliadau fel RNLI a Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn awyddus i gefnogi mewn digwyddiadau ymgyrchu os yw'r adnoddau a'r gallu ar gael. |
| **1.2 Archwilio'r posibilrwydd o greu rhagor o fannau di-fwg yng Nghymru.**<br>**1.3 Eirioli dros wneud sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus yn ddi-fwg, gan gynnwys cefnogi'r syniad o gael rhagor o fannau di-fwg ac ymwreiddio egwyddorion di-fwg.** | Mae ICC wedi cynnal adolygiad llenyddiaeth o fannau di-fwg, gan archwilio'r dystiolaeth a'r sail resymegol i ymestyn mannau di-fwg yng Nghymru, i gefnogi dadnormaleiddio smygu.<br>Mae ICC wedi cynnal arolygon ansoddol o agweddau tuag at smygu yng Nghymru sy'n dangos y byddai cefnogaeth i ragor o fannau di-fwg yng Nghymru[1].<br>Gofynnodd Arolwg Iechyd a Lles y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN) am farn pobl ifanc ar leoedd di-fwg fel pwnc arbennig yn ystod arolwg 2021/22[2].<br>Bydd y Bwrdd Strategol ar gyfer Rheoli Tybaco yn ystyried pa gamau pellach y gellid eu cymryd mewn perthynas ag ardaloedd di-fwg ac a ddylid argymell cyflwyno deddfwriaeth yn ystod eu cyfarfod ym mis Rhagfyr 2023. |

1 Beaufort Research Public attitudes to new smoke free outdoor spaces in Wales 2022.pdf
2 https://www.shrn.org.uk/cy/data-cenedlaethol/ tudalen 174

| Camau Gweithredu | Cynnydd yn ystod 2022/23 |
|---|---|
| **1.4 Archwilio rôl negeseuon amgylcheddol o ran rheoli tybaco, a chydweithio â Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau Datganoledig eraill i gefnogi camau ledled y DU i fynd i'r afael â'r effeithiau amgylcheddol sydd ynghlwm wrth smygu.** | Mae gwastraff stympiau sigaréts a phecynnu yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd. Mae'n hysbys mai stympiau sigaréts sy'n cael eu taflu amlaf fel sbwriel yng Nghymru[3] ac mae cost glanhau stympiau sigaréts sydd wedi cael eu taflu fel sbwriel tua £40 miliwn y flwyddyn yn y DU.<br>Mae'r cynnydd yn y defnydd o gynhyrchion fepio, yn enwedig eitemau untro, hefyd yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd. Mae swyddogion yn Llywodraeth Cymru yn cydweithio â swyddogion o wledydd eraill y DU i ganfod sut gellir mynd i'r afael ag effeithiau amgylcheddol yr eitemau hyn. Mae hyn yn cynnwys ystyried y cyfleoedd yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 sydd â'r nod o fynd i'r afael â chynhyrchion plastig untro yng Nghymru, y gofynion ar gyfer gwaredu yn Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff (WEEE) 2013 a chynlluniau cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr fel y darperir ar eu cyfer yn Neddf yr Amgylchedd 2021. |

3 https://keepwalestidy.cymru/caru-cymru/cy/problemau/sbwriel-ysmygu/

## Maes gweithredu blaenoriaeth 2 – Gwelliant parhaus a chefnogi arloesi

Mae'r strategaeth yn glir bod angen i ni ddatblygu llwyddiannau'r systemau presennol ar gyfer rheoli tybaco ond chwilio hefyd am ymyriadau arloesol sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn ehangu a chefnogi ein huchelgais. Ym mlwyddyn gyntaf y cynllun cyflawni hwn, rydym wedi canolbwyntio ar archwilio rôl e-sigaréts a chynhyrchion nicotin eraill a gweithredu model systematig Helpa Fi i Stopio yn yr Ysbyty i Gymru.

| Camau Gweithredu | Cynnydd yn ystod 2022/23 |
|---|---|
| **2.1 Rhoi gwasanaeth systematig Helpa Fi i Stopio yn yr Ysbyty ar waith ar gyfer rhoi'r gorau i smygu yng Nghymru gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o Fodel Ottawa, Canada, ar gyfer Rhoi'r Gorau i Smygu a'i addasu i Gymru ac ychwanegu cam cyn-ysbyty at y rhaglen.** | Arweiniodd ICC y gwaith o ddatblygu'r Rhaglen Helpa Fi i Stopio yn yr Ysbyty mewn partneriaeth â Chyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd. Sefydlwyd Bwrdd y Rhaglen ym mis Hydref 2022 ac mae'n cyfarfod bob chwarter. Mae cynllun gweithredu mewn camau dros 3 blynedd wedi'i ddatblygu, ei gadarnhau, ac mae'n cael ei oruchwylio gan Fwrdd y Rhaglen. Mae amcanion gweithredu Blwyddyn 2 wedi cael eu datblygu ac mae tri gweithgor wedi'u sefydlu i ddatblygu gwaith blaenoriaeth ar ddata, hyfforddiant a TG/seilwaith.<br><br>Mae set ddata sylfaenol ar gyfer y rhaglen Helpa fi i Stopio yn yr Ysbyty wedi'i datblygu i gefnogi'r gwaith o roi'r rhaglen ar waith, darparu gwasanaethau a mecanweithiau adrodd. Mae rhagor o waith wedi'i gynllunio i gynnal ymarfer ymgynghori gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn mireinio'r set ddata ymhellach.<br><br>Mae gwaith partneriaeth gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar y gweill i ymgorffori'r set ddata sylfaenol yn y cronfeydd data iechyd er mwyn sicrhau bod seilwaith TG ar waith i hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a chefnogi prosesau monitro ac adrodd.<br><br>Cynhaliwyd ymarfer i ddadansoddi anghenion hyfforddi a chwmpasu hyfforddiant er mwyn pennu anghenion hyfforddi'r gweithlu fel y gellir darparu'n effeithiol yr ymyriad Helpa fi i Stopio yn yr Ysbyty. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu pecyn hyfforddiant e-ddysgu. |

| Camau Gweithredu | Cynnydd yn ystod 2022/23 |
|---|---|
| **2.2 Mynd ati'n barhaus i gynyddu nifer y bobl sy'n ymuno â'r ddarpariaeth rhoi'r gorau i smygu ac atal smygu. Archwilio dulliau arloesol a digidol ar gyfer lleihau nifer y bobl sy'n dechrau smygu a hyrwyddo'r gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu. Sicrhau dull cydgysylltiedig gyda chefnogaeth gyson i smygwyr er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n rhoi'r gorau i smygu. Gweithio gyda grwpiau lle gwelir y nifer uchaf o smygwyr neu'r cyfraddau isaf o ran defnyddio gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu, er mwyn deall y rhwystrau sy'n atal pobl rhag rhoi'r gorau i smygu ac edrych ar atebion arloesol.** | Ym mis Mehefin 2022, dyfarnodd ICC gontract tair blynedd i ddatblygu a rhoi ar waith system Gweinyddu Cleifion ar gyfer Gwella Iechyd (HIPAS) sy'n cwmpasu Helpa Fi i Stopio a'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS). Mae ICC wedi arwain sesiynau ymgysylltu gyda phob darparwr gwasanaeth Helpa Fi i Stopio ac wedi cynnal adolygiad o'r cronfeydd data cleientiaid a'r setiau data presennol a ddefnyddir gan wasanaethau. Bydd system HIPAS yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaeth cyson, di-dor ac o ansawdd uchel i gleientiaid a darpariaeth well o ddata a dadansoddiadau amserol, cyson a pherthnasol i dimau lleol a chenedlaethol. Yn dilyn proses ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau ar draws y system rhoi'r gorau i smygu, datblygwyd set ddata ddrafft. Mae'r system Gweinyddu Cleifion Helpa Fi i Stopio newydd wedi'i datblygu, a bwriedir cyflwyno'r system newydd am y tro cyntaf i ddarparwyr gwasanaethau Helpa Fi i Stopio yn Ch4 2023/24, sy'n rhyngwynebu i atgyfeirio ehangach a darparwyr gwasanaethau a fydd yn cael eu datblygu yn 2024-25.<br><br>Cyhoeddwyd canllawiau i heddluoedd yng Nghymru ar smygu mewn ceir a'r cyngor a'r gwasanaethau y gall yr Heddlu eu darparu i aelodau'r cyhoedd sy'n cael eu canfod yn smygu mewn ceir gyda phlant. Roedd hyn yn cynnwys cyfleoedd i swyddogion gyfeirio pobl at beryglon smygu (yn enwedig mwg ail-law i blant mewn ceir) a thynnu sylw at gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhoi'r gorau i smygu.<br><br>Yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2022, gwnaeth Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU (NSC y DU) argymhelliad cadarnhaol ar sgrinio canser yr ysgyfaint wedi'i dargedu ymhlith pobl 55-74 oed sydd â hanes o smygu. Rhan o'r argymhelliad oedd i'r rhaglen sgrinio gael darpariaeth integredig gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu. Dywedodd NSC y DU hefyd na ddylid ystyried sgrinio ar gyfer canser yr ysgyfaint fel dewis arall yn hytrach na darparu gwasanaethau o ansawdd uchel ar gyfer rhoi'r gorau i smygu ar draws pob grŵp oedran. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhelliad y Pwyllgor mewn egwyddor ac mae'n ystyried sut gellid cyflawni hyn yng Nghymru. Rydym yn cydweithio ag ICC i archwilio opsiynau a byddwn yn dysgu o ganfyddiadau rhaglen beilot ar gyfer sgrinio'r ysgyfaint a gynhelir yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Mae swyddogion wedi gofyn i ICC ymgymryd ag ymarfer cwmpasu er mwyn deall yn well y manteision posibl o gyflwyno rhaglen sgrinio'r ysgyfaint wedi'i thargedu yng Nghymru, y llwybr a awgrymir, a'r gweithgarwch a'r goblygiadau yn ôl amcangyfrif o ran adnoddau ar gyfer y rhaglen a Byrddau Iechyd. Mae gwledydd eraill y DU mewn cyfnod cwmpasu tebyg i Gymru, ond mae gan Loegr nifer o gynlluniau peilot Archwiliad Iechyd yr Ysgyfaint ar y gweill ac mae'n bwriadu ehangu'r rhain i greu rhaglen genedlaethol erbyn 2028-29. |

| Camau Gweithredu | Cynnydd yn ystod 2022/23 |
|---|---|
| **2.3 Archwilio rôl e-sigaréts a chynhyrchion eraill sy'n cynnwys nicotin wrth roi'r gorau i smygu.** | Mae Cymru, fel rhannau eraill y DU a gwledydd eraill yn rhyngwladol, yn profi cynnydd cyflym mewn adroddiadau bod pobl ifanc yn defnyddio e-sigaréts. Mae ICC wedi cynnull Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau (IRG) i ymchwilio i Fepio ymhlith Pobl Ifanc yng Nghymru ac ymateb iddo.<br><br>Mae ICC wedi cychwyn gwaith ar ddichonoldeb ehangu'r gwasanaeth cyfredol rhoi'r gorau i smygu Helpa Fi i Stopio a'i wneud yn Wasanaeth Dibyniaeth Nicotin cenedlaethol a fyddai felly'n cefnogi'r rhai sy'n dymuno rhoi'r gorau i fepio yn ogystal â rhoi'r gorau i ddefnyddio tybaco. Mae adolygiad o epidemioleg fepio yng Nghymru, adolygiad tystiolaeth o ymyriadau rhoi'r gorau i fepio, ac adolygiad rhanddeiliaid eisoes wedi dechrau.<br><br>Oedolion ifanc 18-24 oed yw'r grŵp poblogaeth gyda'r gyfran fwyaf o smygwyr. Er mwyn datblygu dealltwriaeth fanwl o'r ymddygiad smygu yn y grŵp oedran hwn, mae ICC wedi cynnal gwaith ymchwil ar ddealltwriaeth defnyddwyr. Mae hyn wedi llywio dulliau o atal pobl rhag dechrau smygu ac o annog pobl i roi'r gorau i smygu, gan ddod i ddeall mwy am y defnydd o e-sigaréts. Mae cynllun i fynd i'r afael â gweithredu / ymyrraeth yn cael ei drafod ar hyn o bryd.<br><br>Mae ICC wedi arwain y gwaith o ddatblygu canllawiau ar blant a phobl ifanc yn fepio, i gefnogi lleoliadau addysg, gan weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr Addysg. Cyflwynwyd y canllawiau hyn i ysgolion ym mis Medi 2023[4].<br><br>Ar hyn o bryd, mae swyddogion yn aelodau o weithgor ar fepio, 'Ymgyrch Blackspear', sy'n cael ei arwain gan Safonau Masnach Cymru (SMC). Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â rhanddeiliaid er mwyn deall sut i fynd i'r afael â chynnydd y farchnad fêps anghyfreithlon a sut mae SMC yn mynd i'r afael â'r cynnydd mewn gwerthiant e-sigaréts dan oed. |

4 Gwybodaeth a Chanllawiau ar Fêpio i Ddysgwyr Oedran Uwchradd yng Nghymru - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)

## Maes gweithredu blaenoriaeth 3 – Grwpiau blaenoriaeth

Ym mlwyddyn gyntaf y cynllun cyflawni hwn, mae ein hymdrechion wedi canolbwyntio ar leihau smygu ymysg mamau ac ar ddarparu cefnogaeth i blant a phobl ifanc.

| Camau Gweithredu | Cynnydd yn ystod 2022/23 |
|---|---|
| **3.1 Adolygu'r dystiolaeth a'r data'n ymwneud â'r cymorth i roi'r gorau i smygu sydd ar gael i grwpiau blaenoriaeth a nodi ymhle y mae'r bylchau, gan gynnwys ble yn union y gellir cael yr effaith fwyaf.** | Mae ICC yn arwain ar raglen waith i asesu'r data sydd ar gael ar gyfer cadw gwyliadwriaeth ar y defnydd o dybaco yng Nghymru a'i fonitro. Mae'r gwaith hwn wedi:<br>• adolygu'r ffynonellau data arferol sydd ar gael i ni ar hyn o bryd ar gyfer gwyliadwriaeth a monitro<br>• cynnig cyfres o ddangosyddion i fonitro newid<br>• rhoi darlun clir o'r boblogaeth smygu bresennol yng Nghymru i lywio camau gweithredu<br>• nodi bylchau mewn data ac atebion a awgrymir<br>• cefnogi'r gwaith o werthuso camau allweddol yn y cynllun cyflawni<br>• tynnu sylw at feysydd i'w gweithredu. |
| **3.2 Ymgysylltu â phobl o grwpiau blaenoriaeth a sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau blaenoriaeth er mwyn deall eu rhesymau dros smygu a'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag rhoi'r gorau i smygu, a gweithio gyda nhw i ddatblygu camau wedi'u teilwra i helpu i reoli tybaco.** | Mae ICC wedi gwneud gwaith i feithrin dealltwriaeth er mwyn deall cymhellion ac ysgogiadau ymddygiad smygu ymhlith smygwyr ymroddedig ledled Cymru. Arweiniodd y ddealltwriaeth, a oedd hefyd yn cynnwys archwilio ysgogiadau ar gyfer ymgysylltu â smygwyr, at ddatblygu cyfres o bersonâu sy'n smygu a fydd yn cael eu defnyddio i ddatblygu negeseuon wedi'u targedu ar gyfer ymgyrchoedd cyfathrebu Helpa Fi i Stopio yn y dyfodol a sicrhau bod darpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol mor effeithiol â phosib.<br>Mae ICC wedi gwneud gwaith i feithrin dealltwriaeth i ddeall ymddygiad smygu oedolion ifanc (18-24 oed) er mwyn llywio camau gweithredu ar gyfer rhoi'r gorau i smygu ac atal pobl rhag dechrau smygu. Mae gwaith datblygu pellach ar y gweill i archwilio'r llenyddiaeth yn y maes pwnc hwn er mwyn dylanwadu ar ddulliau wedi'u targedu ar gyfer gweithgarwch atal a rhoi'r gorau i smygu ar gyfer y grŵp poblogaeth hwn.<br>Mae'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn cydnabod bod lefel uwch o gamddefnyddio sylweddau yn y gymuned LHDTC+, gan gynnwys alcohol a smygu ac mae'n cynnwys y cam canlynol. **Yng nghyd-destun gofal iechyd a gofal cymdeithasol, adolygu'r dystiolaeth ynglŷn ag effaith ymddygiadau penodol (e.e. ymddygiad camddefnyddio sylweddau, defnyddio tybaco, iechyd rhywiol, ac iechyd meddwl) a all gael effaith anghymesur ar unigolion LHDTC+. Defnyddio'r adolygiad i nodi'r llwybrau gorau i gomisiynu gwasanaethau**. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio i ddatblygu'r cam hwn, a bydd y canlyniad yn cefnogi ein hymyriadau tybaco ar gyfer y gymuned. |

| Camau Gweithredu | Cynnydd yn ystod 2022/23 |
|---|---|
| **3.3 Cynyddu canran y beichiogrwyddau di-fwg drwy ystyried mentrau i leihau smygu yn ystod beichiogrwydd a sicrhau bod y ddarpariaeth sydd ar gael i'r holl unigolion beichiog ledled Cymru mewn perthynas â rhoi'r gorau i smygu y gorau y gall fod. Cydweithio â gwasanaethau mamolaeth er mwyn sicrhau bod statws smygu pob menyw feichiog yn cael ei gofnodi a bod atgyfeiriadau priodol yn cael eu gwneud at wasanaethau rhoi'r gorau i smygu. Byddwn yn hyrwyddo pwysigrwydd bod yn ddi-fwg cyn beichiogrwydd hefyd.** | Mae smygu tybaco neu ddod i gysylltiad â mwg ail-law yn parhau i fod yn ffactor y gellir ei atal ac mae'n ffactor sy'n gysylltiedig â chymhlethdodau yn ystod beichiogrwydd. Mae gennym ganllawiau cenedlaethol[5] ar waith i gefnogi pobl feichiog sy'n smygwyr drwy argymell bod pob person beichiog yn cael ei holi am ei statws smygu mewn apwyntiadau cynenedigol ac yn cael eu cyfeirio at wasanaethau priodol ar gyfer rhoi'r gorau i smygu er mwyn derbyn cymorth parhaus. Cynigir cymorth wedi'i dargedu i roi'r gorau i smygu i bobl feichiog yng Nghymru, ond mae angen cymryd camau pellach i gynyddu cyfran y beichiogrwyddau di-fwg, gan gynnwys hybu cyfnod cyn-beichiogi di-fwg.<br><br>Mae lleihau smygu ymysg mamau yn flaenoriaeth i'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ac i gefnogi hyn, mae Byrddau Iechyd ledled Cymru wedi derbyn cyllid Atal a'r Blynyddoedd Cynnar. Enghraifft o'r cyllid a ddefnyddir i gefnogi'r gostyngiad mewn smygu ymysg mamau yw cynllun cymhellion peilot ar gyfer smygwyr beichiog, wedi'i ariannu gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Aeth y cynllun peilot hwn yn fyw ym mis Hydref 2022[6].<br><br>Mewn partneriaeth â Chyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, mae ICC wedi cynnal adolygiad o wasanaethau cyfredol yng Nghymru ar gyfer rhoi'r gorau i smygu ymysg mamau o gymharu â'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer ymarfer effeithiol, ac wedi datblygu cynllun gweithredu gan gynnwys gwneud argymhellion ar gyfer gwella ar draws y system. |
| **3.4 Sicrhau bod y negeseuon yn glir ac yn gyson, a'u bod wedi'u teilwra ar gyfer ymgysylltu â'n grwpiau blaenoriaeth gwahanol.** | Ar hyn o bryd, mae ICC yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r gweithgareddau cyfathrebu ac ymgyrchu (cyfredol a hanesyddol) a fydd yn llywio'r gwaith o ddatblygu strategaeth newydd ar gyfer marchnata cymdeithasol i'r ymgyrch Helpa Fi i Stopio. Bydd y strategaeth newydd yn llywio taith y defnyddiwr, cynhyrchion digidol, segmentu creadigol a segmentu cynulleidfa ar gyfer Helpa Fi i Stopio.<br><br>Arweiniodd ICC ymgyrch, wedi'i thargedu tuag at smygwyr, o'r enw ymgyrch 'Teimlo'r Gwahaniaeth' sydd wedi perfformio'n dda. Mae'r ymgyrch greadigol yn cynnwys tri grŵp cynulleidfa â gwahanol gymhellion dros roi'r gorau iddi gyda Helpa Fi i Stopio.<br><br>Erbyn diwedd 2023/24, bydd ymgyrch greadigol newydd yn cael ei datblygu, yn seiliedig ar ganfyddiadau adolygiad strategol parhaus ICC a gwaith arall i feithrin dealltwriaeth.<br><br>Mae Byw Bywyd Di-fwg yn ymyriad atal smygu sy'n seiliedig ar dystiolaeth a ddatblygwyd ac a ddarperir i ysgolion wedi'u targedu yng Nghymru gan ICC. Mae'r rhaglen yn gweithio gyda disgyblion dylanwadol blwyddyn wyth i'w harfogi â'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymhelliant i hybu buddion aros yn ddi-fwg ymhlith eu cyfoedion cyn oedran dechrau smygu arferol. Cafodd y drefn o ddarparu'r rhaglen Byw Bywyd Di-fwg wyneb yn wyneb ei oedi yn ystod pandemig COVID-19 a'i ailsefydlu ym mlwyddyn academaidd 2022/23. Mae cynnwys ac adnoddau'r rhaglen wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru, ac erbyn hyn mae'r rhaglen yn rhoi sylw i fepio. Datblygwyd cynllun ymgysylltu a chyfathrebu newydd i randdeiliaid. |

5 Guidelines Template March 2011 (nhs.wales) (Saesneg yn unig/English only)
6 https://bipbc.gig.cymru/newyddion/newyddion-or-bwrdd-iechyd/cynllun-peilot-talebau-i-gynnig-cymorth-ychwanegol-i-famau-beichiog-o-ran-rhoir-gorau-i-ysmygu/

| Camau Gweithredu | Cynnydd yn ystod 2022/23 |
|---|---|
| **3.5 Gwaith i archwilio'r sylfaen dystiolaeth, a gan weithio gyda phartneriaid, pennu grwpiau blaenoriaeth ychwanegol y dylem weithio gyda nhw er mwyn cynnig cymorth priodol, ychwanegol.** | Gan gydnabod y ffaith y bydd cyffredinrwydd smygu yn gostwng ac y bydd angen dull wedi'i dargedu i raddau mwy, mae ICC wedi arwain y rhaglen waith ar ddata, gan gynnal dadansoddiad o'r boblogaeth smygu a'i phroffilio fel y gellir deall yn well y boblogaeth smygu a'i nodweddion er mwyn cefnogi gwaith manylach wedi'i dargedu fwyfwy gyda'r grwpiau hyn o smygwyr.<br>Mae ICC wedi cynnal ymchwil i feithrin dealltwriaeth a fydd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu cyfres o Bersonâu a fydd yn ategu'r rhaglen datblygu data a'r gwaith dadansoddi clwstwr. Bydd y ddealltwriaeth hon o Bersonâu yn llywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau a chyfathrebiadau sydd wedi'u cynllunio i ysgogi a chefnogi pobl i roi'r gorau i smygu. Mae dadansoddiad ychwanegol yn cael ei wneud i lywio ymyriadau addas, darpariaeth gwasanaethau a'r strategaeth gyfathrebu ar gyfer 2023/24.<br>Mae'r HIPAS (gweler Adran 2.2) yn cael ei ddatblygu i wella'r gallu i adnabod y rhai o grwpiau blaenoriaeth ar draws y system rhoi'r gorau i smygu a'r galluogrwydd i ddeall eu hanghenion a'u profiadau o ran cael mynediad at wasanaethau. |

## Maes gweithredu blaenoriaeth 4 – Mynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon a chefnogi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoli tybaco

Mae mynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon yn fater allweddol o ran rheoli tybaco yng Nghymru. Er gwaethaf y niwed y gwyddom y gall tybaco anghyfreithlon ei achosi a'r cysylltiad cryf â throseddu cyfundrefnol, mae llawer o bobl nad ydynt yn ymwybodol o'r niwed y gall tybaco anghyfreithlon ei achosi ac nid ydynt yn teimlo ei fod yn fater pwysig yn eu cymuned.

| Camau Gweithredu | Cynnydd yn ystod 2022/23 |
|---|---|
| **4.1 Adolygu'r dystiolaeth a'r data'n ymwneud â thybaco anghyfreithlon yng Nghymru, gan nodi ym mhle mae'r bylchau.** | Mae Ymgyrch CeCe yn fenter ar y cyd rhwng Safonau Masnach Cenedlaethol a Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF) i fynd i'r afael â'r fasnach tybaco anghyfreithlon. Bydd gwybodaeth gan Ymgyrch CeCe yn parhau i gael ei monitro er mwyn darparu dealltwriaeth glir o'r cymunedau yng Nghymru lle mae tybaco anghyfreithlon yn fwyaf cyffredin fel y gellir cyfeirio adnoddau'n briodol.<br>Cwblhawyd arolwg NEMS yn 2022 i helpu i gael gwybodaeth a meithrin dealltwriaeth ynghylch nifer yr achosion o dybaco anghyfreithlon yng Nghymru. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i nodi ym mhle y mae'r bylchau fel y gellir targedu adnoddau'n fwy effeithiol.<br>Fel rhan o'r gweithgor ar fepio, 'Ymgyrch Blackspear', sy'n cael ei arwain gan Safonau Masnach Cymru, mae tystiolaeth a data'n cael eu rhannu gyda'r grŵp ar fêps anghyfreithlon er mwyn deall y raddfa ledled Cymru. |
| **4.2 Codi ymwybyddiaeth o dybaco anghyfreithlon a'i effeithiau drwy gyfrwng deunyddiau ac ymgyrchoedd cyfathrebu.** | Ym mis Ionawr 2022, datblygwyd Ymgyrch Tybaco Anghyfreithlon Cymru, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â phartneriaid i gynyddu iechyd a lles y boblogaeth yng Nghymru drwy'r dulliau canlynol:<br>• Lleihau'r galw am dybaco anghyfreithlon yng Nghymru.<br>• Gwneud tybaco anghyfreithlon yn llawer llai derbyniol i'r cyhoedd yng Nghymru.<br>• Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd a dylanwadu ar y cyhoedd i fod yn anghyfforddus â'r syniad o brynu tybaco anghyfreithlon ac yn fwy tebygol o'i adrodd.<br>• Cefnogi'r gwaith gorfodi a tharfu sy'n cael ei wneud gan Safonau Masnach Cymru a CThEF ledled Cymru.<br>Oherwydd llwyddiant ymgyrch Ionawr 2022, rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2023 ariannwyd Ymgyrch Tybaco Anghyfreithlon arall gan Lywodraeth Cymru. Nod yr ymgyrch hon oedd targedu partneriaid, defnyddwyr presennol tybaco anghyfreithlon, y cyhoedd a manwerthwyr.<br>Rhannwyd deunyddiau ymgyrchu a grëwyd ym mis Ionawr 2023 gydag ysgolion ar draws Dysg i'w defnyddio ar eu platfformau ac i ddefnyddio deunyddiau ar diroedd ysgolion. |

| Camau Gweithredu | Cynnydd yn ystod 2022/23 |
|---|---|
| **4.3 Datblygu system ar gyfer rhannu gwybodaeth am dybaco anghyfreithlon sy'n cefnogi gwaith gorfodi effeithiol ledled Cymru.** | Datblygwyd y wefan Dim Esgus. Byth. gan ASH Cymru a chaiff ei chynnal gan ASH Cymru hefyd. Mae'n darparu gwybodaeth a newyddion am dybaco anghyfreithlon yng Nghymru. Mae'n darparu mecanwaith adrodd i'r cyhoedd hefyd fel y gallant roi gwybod am weithgarwch tybaco anghyfreithlon yn eu hardal yn ddienw. Yna caiff yr wybodaeth hon ei throsglwyddo i Dîm Gwybodaeth Rhanbarthol Safonau Masnach Cymru lle caiff yr wybodaeth ei lledaenu i'r Awdurdod Lleol priodol ar gyfer gweithredu. Ers lansio'r wefan ym mis Ionawr 2022, cafwyd 407 o adroddiadau y gellir gweithredu ar eu sail o weithgarwch tybaco anghyfreithlon gan gynnwys 13 o adroddiadau gan yr heddlu. Mae'r wefan wedi cael 28,443 o ymweliadau gyda 19,000 o ddefnyddwyr newydd. Cynyddodd gweithgarwch adrodd yn sylweddol yn ystod y tair ymgyrch benodedig ar y cyfryngau. |
| **4.4 Gweithio gyda phartneriaid, yn cynnwys yr Heddlu, CThEF ac awdurdodau lleol, i archwilio syniadau arloesol yn ymwneud â mynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon ledled Cymru.** | Ym mis Mawrth 2022, ariannodd Llywodraeth Cymru ddwy weminar ar gyfer swyddogion heddlu, swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ac ysgolion i godi ymwybyddiaeth o dybaco anghyfreithlon, sut mae tybaco anghyfreithlon yn effeithio ar gymunedau a'r cysylltiadau â throseddau cyfundrefnol difrifol. ASH Cymru oedd yn cynnal yr hyfforddiant, ac roedd panel o arbenigwyr ar gael i ateb cwestiynau yn dilyn yr hyfforddiant, gan gynnwys cynrychiolwyr o Ymgyrch CeCe a'r Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol (ROCU).<br><br>Oherwydd llwyddiant yr hyfforddiant ym mis Mawrth 2022, gofynnodd Safonau Masnach Cymru am hyfforddiant i arfogi pob swyddog gorfodi â'r gallu i ddefnyddio deddfwriaeth arloesol i ymdrin yn llwyddiannus â thybaco anghyfreithlon yn eu hawdurdodau lleol eu hunain. Mynychodd 97 o swyddogion yr hyfforddiant ar hyd a lled Cymru. Cafodd pecyn cymorth ei gynhyrchu a'i rannu gyda Safonau Masnach Cymru er mwyn i swyddogion gyfeirio ato yn dilyn yr hyfforddiant. |
| **4.5 Adolygu'r dulliau gorfodi sydd ar gael yng Nghymru mewn perthynas â rheoli tybaco er mwyn deall a oes angen eu cryfhau, ac ym mhle.** | Cyflwynwyd adolygiad o'r penodau sy'n weddill o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 i randdeiliaid er mwyn cael eu barn a chynnal adolygiad o'r adnoddau sydd ar gael i ddiogelu'r cyhoedd, yn enwedig plant a phobl ifanc, rhag niwed tybaco a chynhyrchion nicotin. Bydd canlyniad yr adolygiad yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd Strategol ar gyfer Rheoli Tybaco ym mis Rhagfyr 2023. |

## Maes Gweithredu Blaenoriaeth 5 – Gweithio ar draws y DU

Mae gan Gymru gysylltiadau cryf a bydd yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Llywodraethau a sefydliadau yng ngwledydd eraill y DU. Mae hyn yn cynnwys gweithio ar ddatblygu polisi i rannu arferion gorau, eirioli, cefnogi a rhoi mesurau cadarn ar waith ar gyfer rheoli tybaco, gan gynnwys sut gallwn gefnogi argymhellion Adolygiad Khan oherwydd ein bod yn cydnabod y bydd hyn yn hanfodol bwysig wrth sicrhau Cymru ddi-fwg.

| Camau Gweithredu | Cynnydd yn ystod 2022/23 |
|---|---|
| **5.1 Adolygu camau a pholisïau a roddir ar waith gan wledydd eraill y DU mewn perthynas â rheoli tybaco, a rhannu arferion gorau'n ymwneud â chamau a pholisïau rheoli tybaco yng Nghymru a ledled y DU.**<br><br>**5.2 Parhau i weithio gyda Llywodraethau eraill y DU ar amrywiaeth eang o faterion yn ymwneud â rheoli tybaco nad ydynt wedi'u datganoli, er mwyn cefnogi system gref ar gyfer rheoli tybaco, yn cynnwys:**<br>**a. Oedran gwerthu**<br>**b. Effaith amgylcheddol smygu**<br>**c. Rhybuddion diogelwch ar gynhyrchion tybaco a nicotin**<br>**ch. Pris, ardoll a threthiant tybaco** | Yn gynnar yn 2022, comisiynodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol Dr Javed Khan OBE i adolygu polisïau cyfredol Llywodraeth y DU ar gyfer rheoli tybaco a datblygu argymhellion ar y camau sydd eu hangen i gyflawni ei huchelgais i wneud Lloegr yn ddi-fwg erbyn 2030. Roedd yr adolygiad yn annibynnol ac yn seiliedig ar dystiolaeth, a gwnaeth y canlyniad a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2022 15 o argymhellion i Lywodraeth y DU o ran cyrraedd cymdeithas ddi-fwg.<br><br>Er bod yr adolygiad yn canolbwyntio ar y camau y mae angen i Lywodraeth y DU eu cymryd yn Lloegr, mae'r dystiolaeth a gasglwyd a'r argymhellion a wnaed gan Adolygiad Khan yn bwysig iawn i Gymru ac mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant wedi datgan yn glir yr hoffai weld argymhellion yr Adolygiad yn cael eu gweithredu ac y byddai'n eu cefnogi yng Nghymru, yn benodol yr argymhellion allweddol ynghylch codi oedran gwerthu, cael y rhai sy'n llygru i dalu ardoll a chynllun trwyddedu i fanwerthwyr.<br><br>Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei blaenoriaethau polisi newydd ar dybaco a dyfeisiau fepio ym mis Ebrill 2023[7]. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio â swyddogion ledled y DU ar weithredu materion ar y cyd yn ymwneud â pholisi tybaco a phwyso am gamau gweithredu mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli i ddileu smygu.<br><br>Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru ac ASH Cymru yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd â'u swyddogion cyfatebol yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon i rannu manylion am weithgarwch cyfredol a gwaith arfaethedig a nodi meysydd o ddiddordeb cyffredin a chydlynu posibl. |

7 https://www.gov.uk/government/speeches/minister-neil-obrien-speech-on-achieving-smokefree-2030-cutting-smoking-and-stopping-kids-vaping